

# Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Wroleg



<b>1.</b>	<b>Crynodeb</b>	<b>3</b>
<b>2.</b>	<b>Cefndir</b>	<b>4</b>
2.1	Y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio	4
2.2	Sut y caiff newid ei gyflawni	4
2.3	Newidiadau mewn gwasanaethau wrolegol	6
<b>3.</b>	<b>Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Wroleg</b>	<b>10</b>
3.1	Mesur profiad y claf	10
3.2	Cyflawni gwasanaeth "cynaliadwy"	10
3.3	Blaenoriaethu gwerth clinigol	12
3.3.1	Pethau na ddylid eu gwneud	12
3.3.2	Trothwyon	13
3.3.3	Grwpiau brys a rhai â blaenoriaeth	14
3.3.4	Dull cyfannol	14
3.4	Gofal integredig	15
3.4.1	Grwpiau cydweithredol rhyngwyneb	15
3.4.2	Grymuso cleifion	16
3.5	Y gorau yn y maes	16
<b>4</b>	<b>Adrodd a chydweithredu</b>	<b>17</b>
<b>Atodiad A</b>	<b>Rhestr o gamau gweithredu</b>	<b>18</b>

## **Crynodeb**

Diben y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Wroleg yw gwella profiad y claf a darparu gwasanaethau cynaliadwy. Mae'r cynllun yn adeiladu ar gyfres o ddatblygiadau yng Nghymru i ddarparu newid cytbwys mewn gwasanaethau i'w weithredu gan fyrddau iechyd ledled Cymru.

Mae'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddeall a mesur y galw, y capasiti a'r gweithgarwch ym maes wroleg a chreu mesur o brofiad y claf ar gyfer gwasanaethau Wroleg yng Nghymru.

Y tri ffactor sbarduno sylfaenol ar gyfer newid mewn gwasanaethau fydd:

- Blaenoriaethu Gwerth Clinigol - gan sicrhau mai dim ond y cleifion cywir a reolir ym maes gofal eilaidd.
- Gofal Integredig - gan sefydlu grwpiau gofal cydweithredol (rhwng gofal ysbyty, gofal cymunedol a gofal sylfaenol) a grymuso cleifion i reoli eu hiechyd.
- Y Gorau yn y Maes - gan fesur gwerth am arian a meincnodi yn erbyn sefydliadau sy'n perfformio orau.

Datblygwyd y cynllun gan Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i gynllunio ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid gyda chynngor ac argymhellion oddi wrth y grwpiau cyfeirio gofal wedi'i gynllunio sy'n cynnwys cleifion a'r trydydd sector. Ceir ynddo dri ar ddeg o gamau gweithredu i fyrddau iechyd eu rhoi ar waith.

Cyhoeddir y cynllun ar ffurf Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC/2016/017). Caiff gwaith y byrddau iechyd o ran cyflawni'r cynllun ei adolygu ym mhob cyfarfod o Fwrdd Wroleg Cymru.

Mae fframwaith canllawiau ar gyfer adrodd yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar Wroleg wedi cael ei lunio.

## 2.0 Cefndir

### 2.1 Y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio


Diben y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio yw:

- 1) Darparu gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio "cynaliadwy"
- 2) Sicrhau bod y claf sy'n defnyddio gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio yn cael y profiad gorau posibl.

### 2.2 Sut y caiff newid ei gyflawni?

Bydd y rhaglen yn ei gwneud yn ofynnol i'r galw, y capasiti a'r gweithgarwch ym mhob un o'r prif is-arbenigeddau gael eu mesur a'u rheoli.

Er mwyn sicrhau cydweddu rhwng y galw, y capasiti a'r gweithgarwch (cynaliadwyedd) bydd y rhaglen yn defnyddio dull newid cytbwys mewn gwasanaethau seiliedig ar y tri ffactor sbarduno sylfaenol sef Blaenoriaethu Gwerth Clinigol, Gofal Integredig a'r Gorau yn y Maes.



Bydd blaenoriaethu gwerth clinigol (neu BGC) yn cynnwys

- Nodi a dileu "pethau na ddylid eu gwneud" ac "ymyriadau nas cyflawnir fel arfer" NICE
- Rhoi tystiolaeth o lwybrau gofal cytûn er mwyn sicrhau trothwyon gofal cywir a sicrhau y rheolir amrywiadau
- Cytuno ar grwpiau cleifion brys a rhai â blaenoriaeth
- Mabwysiadu dull cyfannol o ofalu am gleifion gan gynnwys addasu ffordd o fyw

Bydd Gofal Integredig (neu GI) yn cynnwys:

- Pennu strwythurau mewn "grwpiau cydweithredol ar gyfer gofal" byrddau iechyd sy'n dwyn ynghyd glinigwyr gofal sylfaenol ac eilaidd gyda chymorth rheoli a mewnbwn gan gleifion, gyda chylch gorchwyl cytûn, er mwyn sicrhau bod "y claf cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir".
- Darparu mynediad wedi'i rymuso i gleifion i'r system gofal wedi'i gynllunio gan ymgorffori addysg, cymhorthion gwneud penderfyniadau ac amgylchedd cefnogol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ystod o opsiynau ar gyfer triniaeth

Bydd y Gorau yn y Maes (neu GM) yn cynnwys

- Pennu mesuriadau canlyniadau ar gyfer pob gwasanaeth gofal wedi'i gynllunio
- Mesur cost darparu gwasanaethau gan ddefnyddio offer llwybr-benodol

Caiff y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio ei chyflawni yn unol â phrotocol "rheoli rhaglenni llwyddiannus" a chaiff ei monitro gan fwrdd rhaglen genedlaethol.


Bydd pob cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth yn cael ei gyflawni gan fyrddau iechyd unigol ac adroddir arno drwy fyrddau arbenigeddau Cymru. Caiff y rhaglen ei chefnogi gan grwpiau cyfeirio arbenigol a bydd yn dibynnu ar gyfranogiad cleifion gyda chyfraniad gan sefydliadau trydydd sector.

## 2.3 Newidiadau mewn gwasanaethau wrolegol

Mae ein system gofal wedi'i gynllunio yn wynebu heriau ac mae angen newid sylweddol a brys<sup>1</sup>.

Ledled Cymru, mae oddeutu 53,000 o atgyfeiriadau cleifion allanol newydd bob blwyddyn ym maes Wroleg<sup>2</sup>. Mae'r gyfradd drosi i driniaeth yn uchel (74%) gyda nifer o'r cleifion sy'n cael triniaeth yn dioddef o ganser<sup>3</sup>.

Ar sail Cymru gyfan mae'r galw am wasanaethau Wroleg wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pedair blynedd diwethaf (Ffigwr 1<sup>4</sup>) er bod tri bwrdd iechyd<sup>5</sup> wedi gweld cynnydd dros y cyfnod a ddadansoddwyd.



(TRH: Terfynau Rheoli Isaf / TRU: Terfynau Rheoli Uchaf)<sup>6</sup>

<sup>1</sup> <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2013/plannedcare/?lang=cy>

<sup>2</sup> Gwasanaethau Gwybodaeth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

<sup>3</sup> Gwasanaethau Gwybodaeth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (Medi 2011 – Medi 2015)



<sup>4</sup> Gwasanaethau Gwybodaeth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Mae'r Terfynau Rheoli Uchaf ac Isaf yn dangos terfynau disgwylidig yr amrywiad yn nifer yr atgyfeiriadau bob mis.

<sup>5</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro


<sup>6</sup> Mae'r Terfynau Rheoli Uchaf ac Isaf yn dangos terfynau disgwylidig yr amrywiad yn nifer yr atgyfeiriadau bob mis.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae nifer y cleifion allanol Wroleg a ymwelodd â'r ysbyty (Ffigur 2<sup>7</sup>) a thriniaeth (Ffigur 3<sup>8</sup>) hefyd wedi aros yn gymharol sefydlog



<sup>8</sup> Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW), Gwasanaethau Gwybodaeth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Fodd bynnag, mae bwlch rhwng yr atgyfeiriadau a'r nifer a ymwelodd â'r ysbyty o ryw 1000 o gleifion bob mis ledled Cymru<sup>9</sup> wedi arwain at gynnydd cronol yn nifer y cleifion ar restrau aros, gan achosi i fwy o gleifion aros mwy na 26 wythnos i gael triniaeth (Ffigur 4<sup>10</sup>)



Nid yw'r berthynas rhwng y capasiti a'r galw yn y system wroleg ledled Cymru yn gytbwys. Er efallai bod rhywfaint o amrywiadau rhwng byrddau iechyd, mae amseroedd aros hwy yn anochel oni weithredir newidiadau sylweddol.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar Wroleg yn amlygu'r angen i gynllunio'r capasiti a'r galw yn effeithiol ym mhob bwrdd iechyd unigol, fel y gall newidiadau mewn cynhyrchiant, capasiti a gwasanaethau gael eu cynllunio mewn ffordd resymol er mwyn sicrhau "gwasanaethau cynaliadwy".

Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â'r angen am newid mewn gwasanaethau gan adeiladu ar ddatblygiadau diweddar ym maes Wroleg ac wedi'i seilio ar yr her gofal iechyd darbodus a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

<sup>9</sup> Gwasanaethau Gwybodaeth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

<sup>10</sup> Gwasanaethau Gwybodaeth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru



Eir i'r afael â'r polisi gofal iechyd darbodus<sup>11</sup> trwy ymagwedd strategol at newidiadau mewn gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio ledled Cymru, sy'n coleddu'r canlynol; Mae Blaenoriaethu Gwerth Clinigol wedi'i seilio ar yr egwyddorion gofal iechyd darbodus canlynol:

- Sicrhau iechyd a llesiant gyda'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol fel partneriaid cyfartal trwy gyd-gynhyrchu;
- Gofalu am y rheiny sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau;
- Gwneud dim ond yr hyn mae ei angen, dim mwy, dim llai; a pheidio â gwneud unrhyw niwed;
- Lleihau amrywiadau amhriodol gan ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd cyson a thryloyw.

Mae consensws cynyddol ynghylch defnyddio achosion lle mae cleifion yn ymglyfwyno â chyflyrau fel canser y bledren fel adeg sy'n cynnig cyfle i addysgu am newid ffactorau ffordd o fyw sydd nid yn unig yn cael effaith niweidiol ar y cydforbidrwydd sy'n gysylltiedig â llawdriniaeth ond hefyd ar oroesiad yn y tymor hir.

Mae gofal integredig wedi'i seilio ar egwyddor sicrhau iechyd a llesiant gyda'r claf a'r cyhoedd fel partneriaid cyfartal trwy gyd-gynhyrchu. Mae'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio â'r nod o ailfodelu'r berthynas rhwng y defnyddiwr a'r darparwr trwy rymuso cleifion i ddod yn fwy gwybodus a hyderus wrth wneud y penderfyniad cywir ynghylch triniaeth gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cysylltiedig gan gynnwys ysgogiad cleifion, offer cynorthwyo â gwneud penderfyniadau a chymorth gan gymheiriaid mewn amgylchedd cefnogol addas.

Yn olaf, mae mesur ansawdd a chost gwasanaeth yn sicrhau bod cysyniad gwerth am arian yn real ac yn dryloyw ac felly'n galluogi byrddau iechyd i ddatblygu camau gweithredu a fydd cystal â rhai'r gwasanaethau a sefydliadau sy'n perfformio orau.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar Wroleg yn fenter newid mewn gwasanaethau sy'n adeiladu ar ymagweddau newydd er mwyn datblygu gwasanaethau cynaliadwy gyda'r profiad gorau posibl i'r claf.

---

<sup>11</sup> [www.1000livesplus.wales.nhs.uk/prudent-healthcare](http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/prudent-healthcare)

### **3. Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Wroleg**

Mae maes Wroleg yn cynnwys clefydau'r arenau, y bledren a'r prostad gan gynnwys anymataliaeth, analluedd, anffrwythlondeb, canser ac ail-lunio'r llwybr cenedlol-wrinol. Mae'n cynnwys cleifion o'r ddau ryw ac o bob oed.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae wroleg wedi dod yn un o'r arbenigeddau llawfeddygol mwyaf arloesol. Mae wrolegwyr yn defnyddio dulliau llawfeddygol traddodiadol ond maent hefyd wedi torri tir newydd gyda'r technegau uwch-dechnoleg, ffeibr-optig ac endosgopig mwyaf modern.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar Wroleg, trwy ymgynghori, wedi cytuno y bydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r meysydd allweddol a fydd yn cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth cynaliadwy yng Nghymru. Mae felly'n canolbwyntio ar y meysydd hynny lle gellir gwneud newidiadau yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol.

#### **3.1 Mesur profiad y claf**

Mae'r Cynllun Gweithredu ar Wroleg â'r nod o sicrhau'r profiad gorau posibl i'r claf trwy:

- fabwysiadu mesuriad safonol
- cytuno ar gamau gweithredu i wella lefelau perfformiad gan fyrddau iechyd.

Er mwyn dangos cynnydd a llwyddant, bydd angen i bob bwrdd iechyd fabwysiadu mesuriad safonol o brofiad y claf.

Caiff y Mesuriad Profiad a Gofnodir gan y Claf (PREM) ar gyfer Wroleg ei ddatblygu trwy gydweithredu â Chynghorau Iechyd Cymuned yn erbyn llwybr niferoedd mawr (gyda phwyntiau arwahanol ar y llwybr) a bennir gan Fwrdd Wroleg Cymru.

#### **3.2 Sicrhau gwasanaeth cynaliadwy**

Diben y cynllun hefyd yw sicrhau gwasanaeth cynaliadwy trwy gydweddu'r galw a'r capasiti yn achos pob un o'r ffrydiau cleifion canlynol:

- Antigen Prostad-Benodol Uchel
- Haematwria
- Pob un arall

Bydd pob ffrwd yn blaenoriaethu yn ôl y brys: amheuaeth o ganser, brys ac arferol.

Bydd y byrddau iechyd yn mabwysiadu systemau i fesur y galw, y capasiti a'r gweithgarwch ym mhob un o'r ffrydiau cleifion uchod ar y pwyntiau llwybr lefel uchel:

- Claf allanol newydd
- Diagnosteg
- Claf allanol gofal dilynol
- Triniaeth

**Cam gweithredu 1** Bydd y byrddau iechyd yn rhoi systemau ar waith i "gasglu" mesuriadau profiad a gofnodir gan y claf (PREM) ac adrodd ar newidiadau mewn gwasanaethau.

**Cam gweithredu 2** Bydd y byrddau iechyd yn rhoi systemau ar waith i fesur ac adrodd ar "y capasiti a'r galw" yn unol â set gytûn o baramedrau cenedlaethol (Cymru gyfan) ar gyfer pob un o'r llwybrau uchod.

### 3.3 Blaenoriaethu Gwerth Clinigol

#### 3.3.1 Pethau na ddylid eu gwneud

Mae egwyddorion gofal iechyd darbodus yn annog clinigwyr i “beidio â gwneud unrhyw niwed”. Mae'r rhestr gweithredoedd na ddylai clinigwyr eu cyflawni yn cynnwys "pethau na ddylid eu gwneud" ac “ymyriadau nas cyflawnir fel arfer” NICE a phenderfyniadau byrddau iechyd ar weithredoedd na ddylid eu cyflawni. Ym maes Wroleg bydd y rhestr hon yn cynnwys:

- Enwaedu oni fo tystiolaeth glir o balanitis, ffimosis / paraffimosis neu os amheuir bod canser y blaengroen
- Ymchwilio i haematwria anweladwy asymptomatig yn seiliedig ar ganllawiau diweddar NICE<sup>12</sup>

Mae'n bosibl hefyd bod cleifion ar restrau aros nad oes angen iddynt gael eu gweld, a hynny am resymau gweinyddol neu resymau clinigol da. Trwy broses ddilysu gall staff gweinyddol neu staff clinigol ddileu cofnodion o'r fath o restrau aros.

**Cam gweithredu 3 Bwrdd Wroleg Cymru i adolygu a lle bo angen diwygio'r rhestr o bethau “na ddylid eu gwneud” ac adolygu ymatebion oddi wrth Gyfarwyddwr Meddygol pob bwrdd iechyd.**

**Cam gweithredu 4 Bydd y byrddau iechyd yn cyflawni ymarfer "dilysu" rhestrau aros i ddileu enwau cleifion nad oes angen apwyntiad newydd neu ddilynol arnynt fel claf allanol.**

---

<sup>12</sup> Suspected cancer: recognition and referral”; Canllawiau NICE NG12, Mehefin 2105, rhif 164

### 3.3.2 Trothwyon

Mae'r egwyddor gofal iechyd darbodus o ofalu am y rheiny sydd â'r anghenion mwyaf yn gyntaf, yn golygu cynnal yr ymyriadau angenrheidiol yn unig tra'n canolbwyntio ar lai o feysydd â mwy o effaith a chanlyniadau.

Dylai byrddau iechyd greu prosesau i atal atgyfeiriadau i ofal eilaidd i gleifion na fyddant yn cael llawer o fudd o'r atgyfeiriad. Er enghraifft, dylai cleifion gael dau ganlyniad Antigen Prostad-Benodol annormal a dilyniannol cyn cael eu hatgyfeirio, dylid sicrhau nad oes haint y llwybr wrinol ar gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth haematwria a dylai atgyfeiriadau cleifion sy'n cael problemau ymgodol gael eu cyfyngu i gleifion nad yw triniaeth â Sildenafil wedi gweithio iddynt.

Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf priodol o gapasiti gofal eilaidd (ac ar yr un pryd sicrhau'r profiad gorau posibl i'r claf) dylai byrddau iechyd wneud y defnydd mwyaf posibl o wasanaethau ymataliaeth cymunedol i gynnwys rheoli adnoddau ymataliaeth gan gynnwys staff a chynhyrchion mewn ffordd effeithiol, mabwysiadu llwybrau un-stop fel mater o drefn i gleifion â haematwria a darparu gwasanaethau dilynol rhithwir i grŵp diffiniedig o gleifion sydd â chanser y prostad.

Dylai byrddau iechyd lynu at ganllawiau NICE<sup>13</sup> ynghylch ail-wneud systosgopi gyda chleifion dethol sydd â chanser y bledren, sy'n nodi *“Discharge to primary care people who have had low-risk non-muscle-invasive bladder cancer and who have no recurrence of the bladder cancer within 12 months”*.

**Cam gweithredu 5 Bydd y byrddau iechyd yn adrodd ar atgyfeiriadau Wroleg newydd / poblogaethau 100,000 a bydd ganddynt gynllun gweithredu i unioni “statws allglaf”**

**Cam gweithredu 6 Yn ogystal ag adrodd ar nifer y cleifion a atgyfeirir gyda haematwria bydd y byrddau iechyd yn adrodd ar gyfran y cleifion â haematwria sy'n cael triniaeth dull un-stop.**

**Cam gweithredu 7 Bydd y byrddau iechyd yn adrodd ar nifer a chyfran y cleifion sydd â chanser y prostad sy'n cael adolygiad (gofal / apwyntiad dilynol) mewn clinig “rhithwir”**

---

<sup>13</sup> (Bladder cancer: diagnosis and management; canllawiau NICE NG2 Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2015 Rhif 1.4.5)

**Cam gweithredu 8 Bydd y byrddau iechyd yn newid eu harferion gyda chleifion sydd â chanser y bledren risg isel a chanolig sy'n cael goruchwyliaeth systosgopi (yn unol â Chanllawiau NICE) ac yn adrodd ar yr effaith ar niferoedd cleifion sy'n cael eu rhyddhau ac achosion o oedi i apwyntiadau.**

### **3.3.3 Grwpiau brys a rhai â blaenoriaeth**

Mae llawer o'r atgyfeiriadau i wasanaethau Wroleg yn achosion lle'r amheuir bod canser. Mae'r byrddau iechyd eisoes wedi ymrwmo i'r safonau canser cenedlaethol a byddant yn parhau i adrodd ar gydymffurfiaeth â'r targedau ar gyfer apwyntiadau brys i gleifion allanol newydd yr amheuir bod canser arnynt (pythefnos) ac atgyfeiriadau am driniaeth (62 diwrnod)

**Cam gweithredu 9 Bydd y byrddau iechyd yn parhau i adrodd ar safonau canser ar gyfer wroleg**

### **3.3.4 Gofal cyfannol**

Smygu yw'r ffactor risg hysbys pwysicaf ar gyfer canser y bledren. Mae tystiolaeth oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd wedi canfod cysylltiad cryfach rhwng smygu a chanser y bledren. Fel yn achos llawer o fathau eraill o ganser sy'n gysylltiedig â smygu, mae rhoi'r gorau i smygu'n gysylltiedig â llai o risg canser y bledren<sup>14</sup>

Mae gordewdra yn ffactor risg ar gyfer anhwylderau wrolegol anfalaen<sup>15</sup> megis anymataliaeth ond mae'r cysylltiad rhwng gordewdra a chanser wrolegol yn anos ei ddiffinio. Fodd bynnag, mae hefyd gorff o dystiolaeth y gall ffactorau ffordd o fyw hefyd fod yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o gymhlethdodau ôl-driniaethol ac â hyd arhosiad<sup>16</sup>.

Caiff smygwyr a'r cleifion hynny sydd â BMI>35 eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth lleol priodol, y naill ar gyfer rheoli gwrth-smygu a'r llall ar gyfer rheoli colli pwysau fel rhan o'u triniaeth weithredol.

---

<sup>14</sup> <http://www.nih.gov/news-events/nih-research-matters/smoking-bladder-cancer>

<sup>15</sup> Parsons JK, Sarma AV, McVary K, Wei JT. *J Urol.* 2013 Jan; 189(1 Pt 2):A102-6

<sup>16</sup> Ash.org.uk

Er mwyn galluogi hyn dylai'r byrddau iechyd:

- sicrhau bod ystod addas o wasanaethau cymorth gwrth-smygu a cholli pwysau ar gael i gymunedau lleol
- sicrhau bod mecanweithiau atgyfeirio priodol yn bodoli.

**Cam gweithredu 10 Bydd y byrddau iechyd yn adrodd ar nifer y cleifion sydd â chanser y bledren sy'n smygu a'r cleifion sydd â BMI > 35 sydd wedi cael llawdriniaeth fawr ac sydd wedi cymryd rhan naill ai mewn rhaglen wrth-smygu neu raglen colli pwysau.**

### **3.4 Gofal integredig**

#### **3.4.1 Grwpiau cydweithredol rhyngwyneb**

Caiff strwythurau newydd sef "grwpiau cydweithredol ar gyfer gofal" eu sefydlu ym mhob bwrdd iechyd i reoli llif cleifion rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Mae rhai strwythurau tebyg yn bodoli eisoes; mae gan y rhan fwyaf o fyrddau iechyd grwpiau gofal llygaid ac mae llawer wedi creu gwasanaethau atgyfeirio cyhyrsgerberbydol.

Cyfrifoldeb pob bwrdd iechyd fydd sefydlu eu grwpiau cydweithredol ar gyfer gofal eu hunain wedi'u seilio ar gylch gorchwyl cenedlaethol. Bydd gan y grwpiau cydweithredol yr egwyddorion canlynol:

- Cynnwys gweithwyr proffesiynol, cleifion a rheolwyr gwasanaethau lleol
- Goruchwyllo ffrydiau cleifion a throthwyon atgyfeirio priodol a lle bo angen brysbennu atgyfeiriadau cyn eu cyflwyno i ofal eilaidd.
- Darparu gwasanaethau ffordd o fyw i'r holl gleifion y nodir bod ganddynt BMI mwy na 35 a chleifion sy'n smygu.
- Creu gwasanaethau i wella ysgogiad cleifion a gwneud penderfyniadau gan gleifion
- Monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar Wroleg

**Cam gweithredu 11 Bydd pob bwrdd iechyd yn sefydlu grŵp gofal cydweithredol wroleg gyda golwg ar fonitro llif cleifion a hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Wroleg.**

### 3.4.2 Grymuso cleifion

Mae Cydgynhyrchu Cymru yn glir ynghylch galluogi dinasyddion a gweithwyr proffesiynol i rannu pŵer a chydweithio mewn partneriaethau cyfartal.

Mae digon o dystiolaeth sy'n dweud bod ysgogiad cleifion yn gwella canlyniadau cleifion a bod offer cymorth â gwneud penderfyniadau yn gwella profiad y claf. Mae dystiolaeth yn awgrymu y bydd cleifion yn cael budd o "amgylchedd cefnogol" i wneud penderfyniadau pwysig ynghylch eu hiechyd a'u llesiant.

Bydd y byrddau iechyd yn creu "strwythurau" mewn lleoliadau cymunedol i ysgogi cleifion a darparu mecanweithiau cymorth â gwneud penderfyniadau fel rhan o'r grwpiau cydweithredol rhyngwyneb.

**Cam gweithredu 12 Bydd y byrddau iechyd yn sefydlu ac yn adrodd ar fesuriadau ysgogiad cleifion (neu MYC) a sgorau cymorth â gwneud penderfyniadau (Mesur Ansawdd Penderfyniad)**

### 3.5 Y Gorau yn y Maes

Mae'n amlwg ddigon, er mwyn dangos eu bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, y dylai gwasanaethau unigol allu mesur 'gwerth am arian' mewn ffordd sy'n caniatáu cymharu â gwasanaethau y cydnabyddir eu bod yn perfformio'n dda neu 'Y Gorau yn y Maes'.

Bydd methodoleg a fabwysiedir yn genedlaethol ar gyfer costio. Triniaeth ar gyfer canser y prostad fydd y llwybr dangosol ym maes wroleg. Caiff y fethodoleg ei hargymell gan grŵp cyfeirio cenedlaethol (Y Gorau yn y Maes) a'i chymeradwyo gan Gyfarwyddwyr Cyllid Cymru.

Caiff ansawdd llwybr canser y prostad ei ddiffinio gan gydrannau o set safonau'r Consortiwm Rhyngwladol ar gyfer Mesur Canlyniadau Iechyd (ICHOM), sy'n cynnwys cymhlethdodau aciwt, canlyniadau a gofnodwyd gan gleifion a goroesiad (rheoli clefydau). Caiff data canlyniadau a chostau eu casglu ar gyfer triniaethau llawfeddygol a thriniaethau radiotherapi am ganser y prostad.

Bydd pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am reoli allgleifion unigol. Bydd Bwrdd Wroleg Cymru yn cefnogi camau gweithredu i wella cyd-ganlyniadau mewn byrddau iechyd unigol.



**Cam gweithredu 13 Bydd y byrddau iechyd yn rhoi systemau ar waith i gofnodi a rheoli costau ac ansawdd llwybr triniaeth am ganser y prostad ac adrodd arnynt yn unol â methodoleg safonol.**

**4. Adrodd a chydweithredu**

Caiff perfformiad y byrddau iechyd yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar Wroleg ei adrodd i Fwrdd Wroleg Cymru sydd i fod i gyfarfod bob deufis.

Bydd cadeirydd Bwrdd Wroleg Cymru yn adrodd i Fwrdd y Rhaglen Gofal wedi'i gynllunio, a fydd yn ei dro yn adrodd i Fwrdd Gweithredol Cymru (noddwyr y rhaglen).

Bydd tîm y rhaglen gofal wedi'i gynllunio yn gweithio gyda bwrdd iechyd i fodelu effaith y newidiadau lefel uchel mewn gwasanaethau, a chanfod cost ddangosol gwasanaeth Wroleg newydd "cynaliadwy". Bydd y bwrdd iechyd hefyd yn cynorthwyo â gwaith cyfathrebu a chanlyniadau cyfarfodydd Bwrdd Wroleg Cymru.

## **Atodiad A: Rhestr o Gamau Gweithredu**

**Cam gweithredu 1** – Bydd y byrddau iechyd yn rhoi ar waith systemau i “gasglu” y mesuriadau profiad a gofnodir gan y claf (PREM) ac adrodd ar newidiadau i'r gwasanaethau.

**Cam gweithredu 2** – Bydd y byrddau iechyd yn rhoi systemau ar waith i fesur ac adrodd ar “y capasiti a'r galw” yn unol â set gytûn o baramedrau cenedlaethol (Cymru gyfan) ar gyfer pob llwybr.

### **Blaenoriaethu Gwerth Clinigol**

**Cam gweithredu 3** - Bydd Bwrdd Wroleg Cymru yn adolygu a lle y bo angen yn diwygio'r rhestr o bethau na ddylid eu gwneud ac yn adolygu ymatebion oddi wrth gyfarwyddwr meddygol pob bwrdd iechyd.

**Cam gweithredu 4** - Bydd y byrddau iechyd yn cyflawni ymarfer "dilysu" rhestrau aros i ddileu enwau cleifion nad oes angen apwyntiad newydd neu ddilydol arnynt fel claf allanol.

**Cam gweithredu 5** - Bydd y byrddau iechyd yn adrodd ar atgyfeiriadau Wroleg newydd / poblogaethau 100,000 a bydd ganddynt gynllun gweithredu i unioni “statws allglaf”.

**Cam gweithredu 6** – Bydd y byrddau iechyd yn adrodd ar gyfran y cleifion â haematwria sy'n cael triniaeth dull un-stop.

**Cam gweithredu 7** – Bydd y byrddau iechyd yn adrodd ar nifer a chyfran y cleifion â chanser y prostad sy'n cael adolygiad (gofal / apwyntiad dilynol) mewn clinig “rhithwir”.

**Cam gweithredu 8** – Bydd y byrddau iechyd yn newid eu harferion gyda chleifion sydd â chanser y bledren risg isel a chanolig sy'n cael goruchwyliaeth systosgopi (yn unol â Chanllawiau NICE) ac yn adrodd ar yr effaith ar niferoedd cleifion sy'n cael eu rhyddhau ac achosion o oedi i apwyntiadau.

**Cam gweithredu 9** – Bydd y byrddau iechyd yn parhau i adrodd ar safonau canser ar gyfer wroleg.

**Cam gweithredu 10** – Bydd y byrddau iechyd yn adrodd ar nifer y cleifion sydd â chanser y bledren sy'n smygu a'r cleifion sydd â BMI > 35 sydd wedi cael llawdriniaeth fawr ac sydd wedi cymryd rhan naill ai mewn rhaglen wrth-smygu neu raglen colli pwysau.

### **Gofal Integredig**

**Cam gweithredu 11** - Bydd pob bwrdd iechyd yn sefydlu grŵp gofal cydweithredol wroleg gyda golwg ar fonitro llif cleifion a hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Wroleg.

**Cam gweithredu 12** - Bydd y byrddau iechyd yn sefydlu ac yn adrodd ar fesuriadau ysgogiad cleifion (neu MYC) a sgorau cymorth â gwneud penderfyniadau (Mesur Ansawdd Penderfyniad).

### **Y Gorau yn y Maes**

**Cam gweithredu 13** - Bydd y byrddau iechyd yn rhoi systemau ar waith i gofnodi a rheoli costau ac ansawdd llwybr triniaeth am ganser y prostad ac adrodd arnynt yn unol â methodoleg safonol.